The Children and Family Reporter
Helping families make arrangements for their children

Adroddwr Plant a Theuluoedd
Helpu teuluoedd i wneud trefniadau dros eu plant

(Welsh)

Beth yw CAFCASS?

Gwaith y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd – CAFCASS – yw diogelu[1] a meithrin lles plant sy'n rhan o achosion llys teulu. Gweithiwn gyda phlant a'u teuluoedd, gan wneud yn siwr bod lleisiau'r plant i'w clywed, a bod eu anghenion yn cael eu cyflawni.

Cynghorwn y llysoedd fel bod eu penderfyniadau er lles gorau plant. Rydyn ni'n annibynnol ar y llysoedd, y gwasanaethau cymdeithasol[2], awdurdodau addysg ac iechyd, a phob asiantaeth debyg. Gweithiwn mewn llysoedd teulu yn unig. Nid yw'r rhain yn llysoedd troseddol.

[1] Mae Deddf Plant 2004 yn rhoddi dyletswydd statudol ar gyrff a gwasanaethau sy'n gweithio gyda phlant, i wneud trefniadau i ddiogelu a meithrin lles plant, yn enwedig o ran bod yn iach, aros yn ddiogel, mwynhau a chyflawni, gwneud cyfraniad cadarnhaol ac ennill ffyniant economaidd.
[2] Yn y daflen hon, mae'r term 'gwasanaethau cymdeithasol' yn cyfeirio at waith yr awdurdodau lleol wrth iddynt ymgymryd â'u gweithgarwch gwasanaeth cymdeithasol, yn enwedig gofal cymdeithasol dros blant.

Beth yw Adroddwyr Plant a Theuluoedd, a beth mae nhw yn ei wneud?

Mae Adroddwyr Plant a Theuluoedd yn hyfforddedig ac yn brofiadol mewn gwaith gyda phlant a theuluoedd. Mewn nifer o lysoedd, byddant yn cael eu gwahodd i helpu teuluoedd wneud ymdrech i gydweld ar drefniadau i'w plant. Os na ddeuant i gytundeb, mae'n bosibl bydd yr Adroddwr Plant a Theuluoedd yn cael ei wahodd i:

- ddal ymlaen â'r gwaith gyda'r teulu er mwyn penderfynu ar y materion sydd heb eu trefnu, a/neu
- gwneud ymholiadau ac ysgrifennu adroddiad i'r llys.

Beth sy'n digwydd yn y Gwrandawiad Cyfarwyddiad Cyntaf?

Yn y Gwrandawiad Cyfarwyddiad Cyntaf, bydd y llys yn penderfynu sut i symud ymlaen â'r cais sydd wedi cael ei wneud yng nglŷn â'r plant. Mae amserlen i'r achos yn cael ei osod hefyd. Mae'r gwrandawiad yn cael ei gynnal yn y llys, ac fel arfer mae'r partïon i'r achos, eu cynrychiolwyr cyfreithiol a swyddog y llys yn ei fynychu. Yn y rhan fwyaf o lysoedd, mae Adroddwr Plant a Theuluoedd ar gael i ddod i'r Gwrandawiad Cyfarwyddiad Cyntaf hefyd. Efallai bydd materion eraill yn cael eu crybwyll yn y gwrandawiad yma hefyd, fel:

- unrhyw gwestiwn yn ymwneud â diogelwch plant, a'r
- posibilrwydd gall y partïon ddod i gytundeb heb orfod parhau â'r achos llys.

Sut mae nhw'n ceisio dod i gytundeb?

Efallai bydd y llys yn gofyn i'r Adroddwr Plant a Theuluoedd gwrdd â chi a'r rhiant neu barti arall i'r achos, i weld a oes modd datrys pethau a dod i gytundeb. Gelwir hyn yn "ddatrys anghytundeb". Efallai bydd cyfarfod ar y cyd yn cael ei awgrymu, ond mae gennych chi'r hawl bob amser i gael eich gweld ar eich pen eich hun. Ambell waith, bydd gofyn i chi ddod â'ch plentyn neu

blant i'r cyfarfod, neu efallai bydd trefniadau yn cael ei gwneud i'w gweld nhw ar wahân. Bydd hyn yn dibynnu ar y cynllwyn datrys anghytundeb lleol, natur y cais ac oed y plentyn.

Mewn nifer fawr o achosion, mae rhai o'r pwyntiau, neu'r pwyntiau i gyd, yn cael eu penderfynu yn ystod y cyfarfod. Efallai bydd y llys yn gadael rhywfaint o amser wedyn i weld fydd y cytundeb yn gweithio. Os nad ydy hi'n bosibl dod i gytundeb yn gymharol gyflym, efallai bydd yr Adroddwr Plant a Theuluoedd yn cynnig cynnal sesiynau ychwanegol mewn ymdrech i ddatrys yr anawsterau. Gallai rhain gael eu cynnal yn un o'n swyddfeydd ni, yn hytrach nag yn y llys.

Efallai bydd yr Adroddwr Plant a Theuluoedd yn awgrymu byddai cyfryngiad o fudd i chi. Proses wirfoddol yw cyfryngiad, lle mae rhieni yn cael cyfarfod rhywun annibynnol mewn ymdrech i ddatrys anghytundebau. Mae cyfarfodydd cyfryngu yn gyfrinachol, os nad yw y ddau riant yn cytuno i drosglwyddo gwybodaeth, neu os ydy'r cyfryngwr yn meddwl dylai ymchwiliadau ychwanegol gael eu gwneud er mwyn diogelu plant.

Mae cyfarfodydd datrys anghytundeb a chyfarfodydd cyfryngu yn rhoi cyfle i chi siarad, ac i wrando ar safbwynt eich gilydd. Gallant fod yn gymorth i chi weithio allan beth fydd orau i'ch plant, yn hytrach na bod y llys yn penderfynu ar eich rhan.

Beth sy'n digwydd os nad oes cytundeb o hyd?

Os nad oes cytundeb o hyd, bydd y llys fel arfer yn gofyn i'r Adroddwr Plant a Theuluoedd wneud gwaith ychwanegol, neu wneud ymholiadau ac ysgrifennu adroddiad am beth mae nhw'n feddwl fydd orau i'ch plant. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r ymholiadau a wnaed, ac yn rhoddi argymhelliad pendant ar y ffordd orau i symud ymlaen. Gall hyn gynnwys mwy o waith gyda'ch teulu. Fel arfer, mae'n cymryd rhyw ddeg wythnos i gynhyrchu adroddiad. Mae'n eithaf cyffredin o hyd i bobl ddod i gytundeb yn ystod y cyfnod hwn. Ar ôl ei

gwblhau, mae'r adroddiad yn mynd i'r llys. Mae'n cael ei yrru at eich cyfreithiwr hefyd, os oes gennych chi un, neu yn uniongyrchol atoch chi os nad oes gennych chi gyfreithiwr.

Pwy fydd yr Adroddwr Plant a Theuluoedd eisiau siarad â nhw?

I gychwyn, bydd yr Adroddwr Plant a Theuluoedd angen siarad â chi a'r parti arall i'r achos. Os oes unrhyw bryder yng nglŷn â'r posibilrwydd o drais neu niwed, fe'ch gwelir fesul un i gychwyn, ac wedyn gyda'ch gilydd os yw hynny'n briodol, ac os ydych chi'ch dau yn cytuno. Bydd yr Adroddwr Plant a Theuluoedd eisiau gweld eich plant hefyd, a siarad gyda nhw. Er mwyn penderfynu beth fydd orau i blant, mae'n rhaid i'r llys wybod am eu dymuniadau a'u teimladau. Rhan o rôl yr Adroddwr Plant a Theuluoedd yw dweud wrth y llys am y rhain.

Yn ogystal â siarad gyda'ch plant a chi a'r parti arall, mae'r Adroddwr Plant a Theuluoedd hefyd angen siarad ambell waith â phobl eraill all roi gwybodaeth amdanoch chi neu'ch plant. Er enghraifft, efallai bydd angen iddynt siarad â meddyg, athro, ymwelydd iechyd neu weithiwr cymdeithasol. Efallai bydd y llys yn gofyn i'r Adroddwr Plant a Theuluoedd gysylltu â rhywun arbennig. Bydd yr Adroddwr Plant a Theuluoedd yn gadael i chi wybod pwy wnawn nhw siarad â nhw, ac yn gofyn am eich cytundeb pan fo'r angen.

Mae'n hollol gyffredin i'r Adroddwr Plant a Theuluoedd holi'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol (gan gynnwys y gofrestr diogelu plant), ac i weld gwybodaeth sydd gan CAFCASS yn barod.

Fydd beth ydw i'n ddweud wrth yr Adroddwr Plant a Theuluoedd yn gyfrinachol?

Gall unrhyw wybodaeth roddwch chi i'r Adroddwr Plant a Theuluoedd gael ei gynnwys yn yr adroddiad i'r llys, a'i drosglwyddo ymlaen i ddiben arall. Ar adegau, er enghraifft, mae'n rhaid trosglwyddo gwybodaeth i asiantaeth arall

os oes pryder yng nglŷn â diogelu plentyn. Yn ychwanegol, mae gennym hawl i wneud gwaith ymchwil er lles plant a theuluoedd. Mae'n bosibl bydd eich gwybodaeth hefyd yn cael ei ddefnyddio'n ddienw o fewn y fath waith ymchwil.

Fydd rhaid i mi weld y rhiant neu oedolyn arall o dan sylw?

Na, ddim os nad ydych chi eisiau. Mae'b bosibl bydd cyfarfod ar y cyd yn cael ei awgrymu, ond mae gennych chi bob amser yr hawl i gael eich gweld ar eich pen eich hun.

Fydd y llys yn gwneud beth mae fy mhlentyn ei eisiau?

Bydd y llys yn cymryd dymuniadau a theimladau plant i ystyriaeth, gan gadw mewn golwg eu hoedran a lefel eu dealltwriaeth. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd y llys yn gwneud beth mae'ch plentyn ei eisiau, ond beth mae'n feddwl fydd orau i'ch plentyn.

Ydy'r llys bob amser yn dilyn cyngor yr Adroddwr Plant a Theuluoedd?

Y llys sy'n penderfynu, ond mae'r llys yn cymryd sylw gofalus o beth sydd gan y Adroddwr Plant a Theuluoedd i ddweud. Os na fydd y llys yn cydweld â'r hyn mae'r Adroddwr Plant a Theuluoedd yn ei argymell, bydd yn egluro pam.

Ydy fy marn i'n cyfri?

Rydyn ni'n croesawu adborth yng nglŷn â'n holl wasanaethau a gweithgareddau, gan bod hyn yn elfen bwysig er mwyn i ni ddatblygu a gwella'n gwasanaeth. Byddwn yn falch o glywed gan bawb sy'n defnyddio ein gwasanaeth – yn blant a phobl ifanc, rhieni, perthnasau, llysoedd neu asiantaethau eraill.

Gallai'r adborth hwn gynnwys:

- **Sylwad** ar ein polisïau neu arferion gwaith, neu unrhyw agwedd arall o'r gwasanaeth
- **Canmoliaeth** ar ein gwaith, neu ynghylch Adroddwr Plant a Theuluoedd unigol
- **Cwyn** am unrhyw agwedd o'ch cyfathrach â ni.

Fe wnawn ni gofnodi, arolygu ac adolygu pob sylwad, canmoliaeth a chwyn yn ymwneud â'n gwasanaethau, a chyhoeddi'r canlyniadau yn ein Adroddiad Blynyddol.

Mae'n bosibl byddwn ni'n cysylltu â chi i gael eich barn ar ôl diwedd yr achos, er mwyn datblygu'n gwasanaethau, ac i hybu gwaith ymchwil.

Sut mae adborthi sylwadau a chanmoliaeth?

Anfonwch unrhyw sylwad neu ganmoliaeth (yn ysgrifenedig os yn bosibl) i'r Adroddwr Plant a Theuluoedd dan sylw, neu at reolwr lleol CAFCASS i'r cyfeiriad ar gefn y daflen hon. Gallech hefyd anfon eich sylwad neu'ch barn drwy e-bost i'n swyddfa genedlaethol, i: yourviews@cafcass.gov.uk.

Ar ddiwedd eich achos, gallwch ofyn am gyfarfod adborth gyda'r Adroddwr Plant a Theuluoedd oedd yn delio â'ch achos, neu gyda'i r(h)eolwr.

Beth os ydw i'n anhapus â gwasanaeth CAFCASS?

Ein nod yw cynnig gwasanaeth o safon uchel ym mhob achos llys teulu, a rhoddi llais i blant ar adeg dyngedfennol yn eu bywydau. Mae'n bwysig i ni wybod pan fo defnyddwyr y gwasanaeth yn credu na wnaethom gyrraedd y nod hwn.

Mae gennym broses gwyno, wedi ei gynllunio i wneud yn sicr ein bod yn delio â chwynion mor gyflym, theg ac effeithiol ag yn bosibl. Mae rhagarweiniad i'r broses gwyno yn dilyn, ac mae eglurhad manwl o'r broses wedi ei osod allan

mewn llyfryn i ddefnyddwyr y gwasanaeth[3]. Mae'r llyfryn hwn ar gael o swyddfa leol CAFCASS, neu gallwch ei gyrchu drwy adran *Gwybodaeth* ein gwefan: www.cafcass.gov.uk.

Beth os ydw i eisiau cwyno?

Yn y lle cyntaf, dylech adael i'r Adroddwr Plant a Theuluoedd perthnasol wybod bob tro byddwch chi'n anhapus am unrhyw agwedd o'r gwasanaeth. Mae'n bosibl bydd modd i ni ddatrys y broblem. Dewis arall yw gofyn am gyfarfod adborth ar ddiwedd eich achos, fel ddisgrifiwyd ar y dudalen flaenorol.

Os nad ydych chi eisiau gwneud hyn, ac eisiau mynd ymlaen i wneud cwyn, dylech gysylltu â rheolwr swyddfa leol CAFCASS mor fuan ag sy'n bosibl.

Os ydych chi'n anghydweld â chynnwys yr adroddiad, mae'n well crybwyll hyn yng ngwrandawiad y llys, fel rheol.

Nid yw'n bosibl newid canlyniad penderfyniad y llys drwy wneud cwyn at CAFCASS*. Os ydych chi'n anghydweld â phenderfyniad y llys, bydd yn rhaid i chi gymeryd cyngor cyfreithiol yng nglŷn ag unrhyw apêl allai gael ei wneud yn erbyn penderfyniad y llys.*

Mae'n bwysig i chi nodi bod terfyn ar y cyfnod pan fydd CAFCASS yn fodlon derbyn cwynion. I oedolion, mae hyn o fewn tri mis i'r adeg pan ddigwyddodd yr achlysur neu'r helynt. Gweler y llyfryn *Mae'ch Barn Chi'n Cyfri* am fanylion llawn terfynau'r cyfnodau hyn.

Gallwch ddisgwyl cydnabyddiaeth o fewn pum diwrnod gwaith bod CAFCASS wedi derbyn eich cwyn.

[3] Your Views Count – How to make a comment, compliment or complaint about our work

Gallwn dderbyn cwynion gan blant unrhyw bryd. Bydd cefnogaeth gan adfocad annibynnol ar gynnig drwy gydol y broses i blentyn sydd eisiau gwneud cwyn.

Diogelwch plant

Byddwn yn ymgymryd â phrofion gyda asiantaethau eraill er mwyn darganfod os yw plant yn berygl o ddioddef niwed sylweddol. Mae hyn yn cynnwys achosion lle mae plant wedi gwylio trais yn y cartref. Rhedwn arbrofion cyffredin gyda'r heddlu, y gwasanaethau cymdeithasol, a'r Cofrestr Diogelu Plant. Byddwn yn gadael i chi wybod os oes angen rhedeg arbrofion pellach gyda asiantaethau ychwanegol (e.e. meddygon teulu, ysgolion). Defnyddir gwybodaeth wrth baratoi adroddiad i'r llys, ac mae'n bosibl bydd gwybodaeth hefyd yn cael ei rannu â'r gwasanaethau cymdeithasol.

Ni wnawn gefnogi trefniadau sy'n dodi diogelwch plant neu bobl ifanc a'u gofalwyr mewn perygl.

Amrywioldeb

Ein nod yw amddiffyn anghenion unigol plant, a pharchu a gwerthfawrogi'r gwahanol gymunedau lle mae nhw'n tyfu i fyny. Byddwn yn cofnodi ac yn arolygu gwybodaeth yn ymwneud ag amrywioldeb defnyddwyr ein gwasanaeth – fel tarddiad ethnig, iaith ac anghenion arbennig – er mwyn i ni wella safon ein gwasanaeth i blant a theuluoedd yn gyson. Mae'r wybodaeth hon hefyd yn gymorth i ni gefnogi cydraddoldeb hiliol a mynediad i wasanaethau, fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Deddf Cysylltiadau Hiliol 2000, Deddf Gwahaniaethau ar Sail Anabledd 1995 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Gwybodaeth

Mae'n modd o hel a thrin gwybodaeth, a'i gyhoeddi, yn cael ei reoli gan ddeddfwriaeth. Gallai'r canlynol fod o ddiddordeb i chi:

- Mae natur ein gwaith yn golygu bod yn rhaid i ni drin gwybodaeth bersonol am ddefnyddwyr ein gwasanaeth. Ymgymerwn â'r holl weithgaredd yma yn gyson â Deddf Gwarchod Data 1998. Mae'n cofnod ni yn y Gofrestr Gwarchod Data i'w weld o dan: www.cafcass.gov.uk
- O dan y Ddeddf Gwarchod Data, mae'r hawl gennych i ofyn am gopïau o'r wybodaeth a gadwn ni amdanoch chi
- Rydyn ni'n addo darparu gwybodaeth am ein gwasanaeth, yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Am fwy o fanylion ar ein cydweithrediad â'r Ddeddf Gwarchod Data neu'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ewch i adran *Gwybodaeth* ein gwefan, o dan www.cafcass.gov.uk neu cysylltwch â'ch swyddfa CAFCASS leol.

Mae'n gwefan hefyd yn cynnwys mwy o wybodaeth am holl gwmpas ein gwasanaethau.